

Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Tai Carbon Isel: yr Her

Argymhelliad 1

Rhaid i Lywodraeth Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth ddeng mlynedd ar gyfer tai carbon isel. Rhaid i'r strategaeth gynnwys cerrig milltir a thargedau a rhaid iddi gyflawni'r canlynol o fewn ei hoes:

- **ôl-osod yr holl dai sydd mewn tlodi tanwydd yng Nghymru i safonau di-garbon ar waith;**
- **adeiladu pob tŷ newydd yng Nghymru i safonau di-garbon ar waith;**
- **system gynllunio ac adeiladu ategol gydag effeithlonrwydd ynni a charbon isel wrth eu gwraidd, a chyda chefnogaeth cyfundrefnau arolygu annibynnol, trylwyr;**
- **cymhellion ariannol i annog prynwyr a pherchnogion i brynu tai carbon isel a buddsoddi mewn mesurau ôl-osod;**
- **ymyriadau cyllido sy'n gwneud y mwyaf o fuddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn tai carbon isel; a**
- **gweithlu wedi'i hyfforddi'n llawn, yn barod i adeiladu a gwella cartrefi gan ddefnyddio'r technolegau diweddaraf.**

Ymateb: Derbynn mewn egwyddor

Mae Gweinidogion Cymru eisoes wedi ymrwymo i ddatblygu rhaglen newydd o gamau a fydd yn datgarboneiddio tai yng Nghymru 80% erbyn 2050 a bydd angen cerrig milltir a thargedau clir ar gyfer hynny. Rydym wrthi'n datblygu'r rhaglen hon gan ddefnyddio gwaith ymchwil annibynnol a gomisiynwyd yn benodol i ddarparu tystiolaeth gref ac mae'r Grŵp Ymgynghorol ar Ddatgarboneiddio Cartrefi, sy'n cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid allanol, yn ein helpu i ddatblygu ac yna gyflwyno'r rhaglen.

Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl cefnogi argymhelliad y Pwyllgor yn llawn gan ei bod yn parhau i fod yn aneglur ynghylch yr hyn y bydd y gwaith ymchwil a'r Grŵp Ymgynghorol ar Ddatgarboneiddio yn ei argymhell i'r Gweinidogion. Mae disgwyl i'r adroddiad hwnnw gael ei gyhoeddi yn ystod Haf 2019. Fodd bynnag, rydym wedi gofyn i'r Grŵp wneud yr hyn a ganlyn, ymysg pethau eraill:

- **Argymhell y mathau priodol o gamau gweithredu a chymorth y gallai'r holl randdeiliaid allweddol, ac nid dim ond y Llywodraeth, eu rhoi ar waith i ddarparu'r rhaglen yn y tymor byr, canolig a hwy;**
- **Dadansoddi'r costau, gwerth, ysgogwyr, cymhellion/anghymhellion, heriau a chyfleoedd a gynrychiolir gan gyfresi o gamau gweithredu unigol ac ar y cyd;**
- **Argymhell y mathau priodol o gymorth ac ymyriadau sydd eu hangen i gyflawni amcanion y rhaglen;**
- **Ystyried sut y gellir rhoi camau gweithredu ar waith e.e. fesul deiliadaeth, ardal, incwm neu fath o adeilad neu gyfuniad o'r dulliau hyn.**

Ymdrinnir â'r her o dai newydd drwy'r Rheoliadau Adeiladu.

Goblygiadau Ariannol – dim ond pan fydd elfennau'r rhaglen newydd arfaethedig yn gliriach y gellir pennu'r rhain.

Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio Rhan L y rheoliadau adeiladu i gynyddu effeithlonrwydd ynni gofynnol cartrefi newydd. Dylai nodi amserlen glir i symud i ddi-garbon ar waith, fel y gall adeiladwyr tai, y gadwyn gyflenwi a darparwyr sgiliau baratoi ar gyfer y newidiadau hyn.

Ymateb: Derbyn

Mae Rhan L o'r rheoliadau adeiladu (Gwarchod tanwydd a phŵer) yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd er mwyn cynyddu effeithiolrwydd ynni tai newydd a sicrhau tai sydd, fel lleiafswm, bron yn ddiynni. Byddaf yn ystyried gweithredu safonau llymach os nad yw'r safon o fod bron yn ddiynni yn cyflawni ein huchelgeisiau ynni.

Rwy'n derbyn yr angen am amserlen ar gyfer symud i fod yn gwbl ddi-garbon ac, yn dibynnu ar amrywiadau ymddygiad a chyfyngiadau o ran eu dewisiadau, dylai'r safonau ymwneud â'r hyn y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol wrth ddefnyddio adeiladau. Fel rhan o'r gwaith i gyflawni'r newidiadau nesaf i Ran L, byddwn yn nodi'r cyfleoedd i wneud gwelliannau yn y dyfodol y tu hwnt i'r arolwg presennol a'r amserlen ar gyfer eu cyflawni.

Goblygiadau Ariannol – Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhellion 3

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y drefn arolygu yn gadarn ac yn cael yr adnoddau priodol i ategu'r hyder mewn tai carbon isel. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno nod ansawdd:

- **sy'n asesu perfformiad technoleg arbed ynni "ar waith";**
- **sy'n gosod rhwymedigaeth ar y gosodwr i sicrhau bod y perfformiad gofynnol yn cael ei gyflwyno neu atgyweirio neu newid y dechnoleg; ac**
- **sy'n cael ei gynllunio, ei archwilio a'i orfodi'n annibynnol**

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Drwy ein rhaglenni ein hunain, rydym yn hyrwyddo safonau uchel o ddadansoddi tai ac yn mesur gosodiadau.

Yn ogystal, mae'r Grŵp Cynghori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yn ystyried hyder cwsmeriaid yn eu gwaith.

Mae cytundebau Cartrefi Clyd Nyth ac Arbed 3 yn nodi bod Asesiadau Tai cyfan yn cael eu cynnal i sicrhau bod mesurau effeithiolrwydd ynni cywir ar gyfer tai yn cael eu nodi a bod yn rhaid i osodiadau dilynol gael eu gwneud i safon PAS 2030 2017.

Er mwyn sicrhau dull rheoli ansawdd trylwyr, mae Llywodraeth Cymru wedi caffael gwasanaeth Sicrwydd Ansawdd ac Archwilio annibynnol, i gynnal archwiliadau sampl o'r gweithgaredd a gynhelir gan Reolwyr y Cynllun Tai Clyd ar draws taith gyfan y cwsmer h.y. Asesiadau o Dai Cyfan, Gwaith ar y Gweill ac Archwiliadau yn Dilyn Gosodiadau.

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bennu safonau ac mae ganddi waith ar y gweill drwy ddatblygu Marc Ansawdd yn sgil yr adolygiad 'Each Home Counts'.

Sefydlwyd yr arlowg 'Each Home Counts' gan Lywodraeth y DU i ystyried y materion sy'n gysylltiedig â chyngor i ddefnyddwyr, diogelwch, safonau a gorfodi mewn perthynas â mesurau effeithlonrwydd ynni yn y cartref ac ynni adnewyddadwy yn y DU.

Arweiniodd yr arlowg, o dan gadeiryddiaeth yr Athro Peter Bonfield, at adroddiad a gyhoeddwyd tua diwedd 2016. Mae'r arlowg yn gwneud nifer o argymhellion allweddol. Mae bellach yn datblygu elfennau a argymhellwyd yn yr adroddiad, gan gynnwys fframwaith diogelu defnyddwyr ar gyfer y sector effeithiolrwydd ynni, ynni adnewyddadwy a gwelliannau i gartrefi.

Mae hyn yn cynnwys marc ansawdd newydd ar gyfer mesurau ôl-osod y mae disgwyl iddo gael ei lansio yn ddiweddarach eleni.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried effaith datblygiadau Llywodraeth y DU.

Goblygiadau Ariannol – Nid yw'r goblygiadau ariannol yn eglur. Fodd bynnag, disgwylir na fydd cost i Lywodraeth Cymru yn dilyn gweithredu Marc Ansawdd gan Lywodraeth y DU.

Argymhelliad 4

Yn ystod y 12 mis nesaf, dylai Llywodraeth Cymru gynnal a chyhoeddi dadansoddiad cost a budd cynhwysfawr o ôl-osod i ddi-garbon ar waith ym mhob cartref sydd mewn tloedi tanwydd.

Ymateb: Derbyn

Mae gennym gynlluniau eisoes i gomisiynu dadansoddiad cost a budd o ôl-osod tai a bydd hynny'n cynnwys tai sydd mewn tloedi tanwydd.

Goblygiadau Ariannol – Mae'r costau ymgymryd â'r gwaith hwn eisoes wedi'u cynnwys mewn cyllidebau ymchwil cyfredol.

Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ehangu'r cynlluniau ôl-osod presennol o dan Arbed 3 a buddsoddi ynddynt. Dylai'r Grŵp Ymgynghorol ar Ddatgarboneiddio Cartrefi Presennol adrodd i'r Pwyllgor ar ddichonoldeb ôl-osod cartrefi o dan y cynllun hwn yn ôl y 'math' o annedd.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Nid yw'n briodol i grŵp Cynghori'r Gweinidogion adrodd i bwyllgor Cynulliad

Rydym yn buddsoddi £104 miliwn ychwanegol yng *Nghartrefi Clyd Llywodraeth Cymru* ar gyfer y cyfnod 2017-2021. Bydd hyn yn ein galluogi i wella hyd at 25,000 o gartrefi (cyfraniad Arbed (3) o 6000 o dai). Bydd ein buddsoddiad hefyd yn ysgogi hyd at £24 miliwn o arian yr UE, yn ogystal â'r cyllid gan Rwymedigaeth Cwmnïau Ynni y DU. Byddwn yn adrodd ar y math o annedd yn ein hadroddiadau blynyddol ar gyfer Arbed 3.

Bydd gwaith ymchwil sy'n cael ei gynnal gan y Grŵp Cynghori ar Ddatgarboneiddio yn hysbysu datblygiad a/neu ehangiad y Rhaglen Cartrefi Clyd yn y dyfodol, yn ogystal â rhoi'r Rhaglen bresennol ar waith.

Goblygiadau Ariannol - Mae'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn cyfeirio swm sylweddol o'r cyllid presennol mewn gwaredu tlodi tanwydd drwy fuddsoddi'n uniongyrchol mewn eiddo. Lanswyd y rhaglen newydd ym mis Ebrill 2018 a bydd yn gweithredu y tu hwnt i dymor y Llywodraeth. Bydd parhau â'r rhaglen a'i hehangu yn dibynnu ar benderfyniad ynghylch buddsoddi sylweddol yn y dyfodol gan Weinidogion Cymru, a fydd yn seiliedig ar y gwaith ymchwil ehangach a pherfformiad y rhaglen ar y pryd.

Argymhelliad 6

Dylai'r Grŵp Ymgynghorol ar Ddatgarboneiddio Cartrefi Presennol adrodd i'r Pwyllgor ar sut y mae'n bwriadu annog perchnogion cartrefi "sy'n gallu talu" a pherchnogion cartrefi sydd ar incwm isel i ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni.

Ymateb: Gwrthod

Sefydlwyd y Grŵp Cyngori gan y Gweinidog Tai ac Adfywio a bydd yn adrodd iddi yn 2019. Fodd bynnag, fel yr eglurwyd yn yr ymateb i Argymhelliad 1, gofynnwyd i'r Grŵp ystyried y mathau priodol o gefnogaeth ac ymyriadau sydd eu hangen i ddarparu rhaglen newydd o weithredoedd ac i ystyried sut y gellid gweithredu'r camau hynny e.e. yn ôl daliadaeth ac incwm.

Bydd y Gweinidog Tai ac Adfywio yn hapus i drafod argymhellion y Grŵp Cyngori gyda'r Pwyllgor maes o law.

Goblygiadau Ariannol – Dim, gan fod yr argymhelliad hwn wedi'i wrthod. Mae costau'r gwaith o ddatblygu rhaglen newydd yn cael eu talu o gyllidebau presennol. Ni ellir ystyried goblygiadau ariannol "annog y rheini sy'n gallu talu a pherchnogion cartrefi sydd ar incwm isel" nes bod y Grŵp Cyngori wedi gwneud argymhellion ar y mater hwn.

Argymhelliad 7

Dylai hyfforddiant a sgiliau fod yn ganolog i strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer tai carbon isel. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn y ddarpariaeth o hyfforddiant a'r offer priodol sydd ei angen i ymgymryd â'r hyfforddiant.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Drwy Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ac amrywiaeth o raglenni cymorth, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn darparu buddsoddiad digonol mewn darpariaeth hyfforddiant i sicrhau bod gan y sector adeiladu'r gweithlu â sgiliau priodol i gyrraedd ei dargedau ar gyfer tai sy'n effeithlon o ran ynni. Fel y nodwyd yn Ffyniant i Bawb, mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn ganolog i Bolisi Sgiliau Cymru. Mae gan y Partneriaethau rôl nid yn unig i gasglu a dadansoddi gwybodaeth am y farchnad lafur i roi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am y lefelau darparu presennol yn erbyn y tueddiadau presennol, ond hefyd i weithio gyda chyflogwyr a phrosiectau datblygu sylweddol i ragweld yr anghenion sgiliau yn y dyfodol. Maent yn darparu adroddiadau blynyddol sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i fonitro ac, os oes angen, aildrefnu'r ddarpariaeth brif ffrwd i ddiwallu anghenion presennol y farchnad lafur bresennol a marchnad lafur y dyfodol.

Mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wedi cynyddu eu ffocws ar gyflogwyr yn sylweddol ac wedi datblygu strategaethau cadarn ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr i gasglu anghenion sgiliau'r rhanbarth ac, yn enwedig, yr anghenion sgiliau sy'n gysylltiedig â phrosiectau seilwaith rhanbarthol a sectorau blaenoriaeth, y mae adeiladu yn un ohonynt. Mae pob Partneriaeth yn cael ei chadeirio hefyd gan gyflogwr.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cael ymarferwyr sydd â'r sgiliau priodol ac sy'n ymwybodol o'r amgylchedd yng ngweithlu amgylchedd adeiledig Cymru yn hanfodol i'r economi ac er mwyn mynd i'r afael â'r her hon rydym yn cymryd camau cyflym i gyflawni ein haddewid i greu lleiafswm o 100,000 o brentisiaethau o ansawdd ar gyfer pobl o bob oedran yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Rydym hefyd yn cydnabod bod yn rhaid i'r holl system Brentisiaethau fod yn fwy hyblyg ac ymatebol i anghenion y diwydiant sy'n newid yn fwyfwy cyflym ac rydym wedi cynnwys cyflogwyr yn y strwythur gwneud penderfyniadau drwy Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, sy'n cynghori Llywodraeth Cymru ar ddatblygiad prentisiaethau i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag anghenion cyflogwyr.

Lle bo angen i goleg ddatblygu cyrsiau a rhaglenni wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion penodol cyflogwr, rydym yn darparu cyllid, drwy'r Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau. Mae'r rhaglen hon yn galluogi sefydliadau AB yng Nghymru i ymateb i dechnolegau allweddol sy'n dod i'r amlwg ac anghenion cyflogwyr. Caniateir pryniannau cyfalaf cyfyngedig, lle byddant yn cefnogi'n benodol y ddarpariaeth o sgiliau lefel uwch a chymwysterau. Yn ogystal â'r ddarpariaeth uchod, ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018/19, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Cronfa Datblygu Sgiliau ychwanegol o £10 miliwn i gefnogi'r broses o uwchsgilio oedolion sy'n ddysgwyr mewn meysydd mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wedi adnabod blaenoriaeth i'r rhanbarth.

Goblygiadau Ariannol – Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd i'r Pwyllgor o fewn 12 mis ar ôl i'r mesurau gael eu rhoi ar waith i sicrhau bod gan y sector adeiladu y gweithlu sydd â'r sgiliau priodol i gyrraedd ei dargedau ar gyfer cartrefi sy'n effeithlon o ran ynni.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Trwy'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a rhaglenni cymorth amrywiol Llywodreath Cymru, mae mesurau eisoes ar waith i sicrhau bod gan y sector adeiladu'r gweithlu sydd â'r sgiliau priodol i gyrraedd ei dargedau ar gyfer tai sy'n effeithlon o ran ynni. Byddem yn ddarparu adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor o fewn 12 mis.

Goblygiadau Ariannol – Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd i'r Pwyllgor o fewn 12 mis gydag asesiad o effaith Brexit ar y cyflenwad o sgiliau a llafur yn y sector adeiladu.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ar draws y tri rhanbarth i nodi a mynd i'r afael â'r bylchau sgiliau mewn sectorau penodol a'r problemau a allai godi o ganlyniad i heriau fel Brexit. Byddem yn ddarparu diweddariad i'r Pwyllgor, oddi wrth Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

Goblygiadau Ariannol – Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 10

Dylai Llywodraeth Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiad o fewn y 12 mis nesaf ar yr opsiynau sydd ar gael iddi i gael cyllid i ddarparu tai carbon isel ar raddfa drwy ôl-osod ac adeiladu tai newydd.

Ymateb: Derbyn

Gofynnwyd i'r Grŵp Cyngori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi ystyried goblygiadau ariannol y rhaglen weithredu i gyflawni ein targed i leihau allyriadau carbon 80% erbyn 2050. Disgwylir i hyn ddigwydd yn 2019.

Goblygiadau Ariannol – Mae costau'r gwaith o ddatblygu rhaglen newydd yn cael eu talu o ddyraniadau staffio presennol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Argymhelliad 11

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda darparwyr morgais mawr yng Nghymru i ysgogi cyfraddau benthyca ffafriol ar gyfer cartrefi carbon isel ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn 12 mis ar gynnydd.

Ymateb: Derbyn

Gofynnwyd i'r Grŵp Cyngori, sy'n cynnwys Cyllid y DU, ystyried sut y dylid cyflawni'r gwaith o ôl-osod tai i gyrraedd ein targedau carbon.

Mae gan y Grŵp gynrychiolwyr o Gyllid y DU sy'n cynrychioli bron 300 o gwmnïau arweiniol sy'n darparu gwasanaethau cyllid, bancio, marchnadoedd a thaliadau yn y DU neu o'r DU.

Mae'r prosiect LENDERS wedi darparu fformiwla ar gyfer asesiadau fforddiadwyedd sy'n ysyrted effeithiolrwydd ynni eiddo, a gall ddarparu arian ychwanegol ar gyfer sicrhau tai mwy effeithlon. Mae Llywodraeth Cymru yn arwain y ffordd ac yn dangos i ddarparwyr morgeisi pa mor syml yw mabwysiadu'r fformiwla, drwy ei gyflwyno i gyfrifwr fforddiadwyedd Cymorth i Brynu Cymru ym mis Mehefin eleni.

Goblygiadau Ariannol – Mae costau'r gwaith o ddatblygu rhaglen newydd yn cael eu talu o ddyraniadau staffio presennol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Argymhelliad 12

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw arian i ysgogi'r farchnad adeiladu tai, fel y Gronfa Safleoedd Segur, yn amodol ar yr adeilad gorffenedig yn bod yn ddi-garbon ar waith.

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn ac yn cydnabod yn llawn bwysigrwydd symud tuag at dai di-garbon neu garbon isel, ac mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn gweithio tuag ato. Fodd bynnag, nid ydym yn dymuno cyflwyno hyn i'n holl fentrau ar hyn o bryd, ond yn hytrach hoffem gyflwyno'r math hwn o ofyniad dros gyfnod o amser. Mae Cronfa Safleoedd Segur Cymru, er enghraifft, wedi'i dylunio i helpu mentrau bach a chanolig i adeiladu tai. Wrth symud tuag at safonau adeiladu dim carbon, byddwn yn ystyried hyn fel rhan o unrhyw geisiadau, a byddwn yn dymuno sefydlu'r cynllun a ffurfio casgliad o fentrau bach a mawr sy'n datblygu, cyn y byddwn yn cyflwyno unrhyw ofyniad o'r fath.

Bydd yr arolwg o Ran L o'r Rheoliadau Adeiladu, ochr yn ochr â'n gwaith drwy'r Rhaglen Tai Arloesol sy'n edrych am fodolau newydd o gartrefi, yn sail i'n penderfyniadau ynghylch yr hyn sydd ei angen arnom i gyflawni ein hymrwymadau dim carbon, gan gefnogi ysgogi'r farchnad adeiladu tai.

Goblygiadau Ariannol – Dim, gan fod yr argymhelliad hwn wedi'i wrthod.

Argymhelliad 13

Dylai Llywodraeth Cymru ailystyried yr achos dros alinio'r Dreth Trafodiadau Tir i effeithlonrwydd ynni eiddo ac adrodd i'r Pwyllgor ar hyn o fewn 12 mis.

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod datganoliad pwerau trethu yn rhoi cyfle i lunio trethi Cymreig a fydd yn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y system dreth ddatganoledg a sicrhau ei bod yn canolbwyntio ar anghenion a blaenoriaethau unigryw Cymru. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yn flaenorol argymhelliad "Dyfodol Ynni Craffach i Gymru", a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd blaenorol, i "ymchwilio i gysylltu cost treth tir y doll stamp â pherfformiad ynni tai i ddechrau cynyddu gwerth cartrefi effeithlon o ran ynni." Felly, roedd cynllun gwaith polisi treth 2017 yn cynnwys ymrwymiad i ymchwilio i a allai'r system dreth ddatganoledig gynorthwyo i ysgogi cartrefi sy'n fwy effeithlon o ran ynni.

Mae angen ystyried unrhyw newid i'r trethi datganoledig yn ofalus i sicrhau y bydd yn cyflawni'r canlyniad polisi a ddymunir ac yn gost-effeithiol ac na fydd yn creu cyfleoedd i osgoi talu treth. Yn 2017, archwiliodd Llywodraeth Cymru yr angen am ymyrraeth ar sail treth i gyd-fynd ag ysgogwyr presennol i ysgogi tai sy'n effeithlon o ran ynni. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys cyfranwyr o'r holl sectorau ac yn canolbwyntio ar ddeall y dystiolaeth bresennol a nodi a oes achos dros newid. Cynhaliwyd dadansoddiad hefyd o'r cynlluniau presennol a hanesyddol o fewn y DU ac yn rhyngwladol lle y defnyddiwyd trethi fel ysgogwr i ysgogi tai sy'n effeithlon o ran ynni. Nododd canlyniad ei waith bod achos dros gymryd camau pellach i ysgogi gwelliannau effeithiolrwydd ynni preswyl, yn enwedig yn y sector gallu talu ond dylid blaenoriaethu grantiau dros newidiadau i drethi.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a bydd gwaith ei Grŵp Cynghori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yn ystyried cynnwys rhaglen newydd o weithredu a sut y gellir cyflawni hynny. Os bydd rhagor o dystiolaeth yn cael ei chyflwyno gan y Grŵp sy'n cefnogi'r achos dros newidiadau i drethi fel ffordd fwy cynhyrchiol o ysgsgogi gwelliannau effeithlonrwydd ynni, bydd Llywodraeth Cymru yn fodlon ail-edrych ar yr achos.

Goblygiadau Ariannol – Dim, gan fod yr argymhelliad hwn wedi'i wrthod.